

# Miri mesur – ewch ati i goginio ar gyfer Diwrnod Rhifau!

## Sut i godi arian

Ewch ati i grasu danteithion blasus yn y dosbarth neu gartref gyda mam a dad, a'u gwerthu mewn arwerthiant cacennau yn yr ysgol i godi arian i'r NSPCC.

Gallech wneud dewis o gacennau a bisgedi (myffins, cacennau bach, cwcis) a rhoi thema Diwrnod Rhifau go iawn iddyn nhw drwy eu haddurno â digidau. Mae'n amser dechrau pwysu a mesur!

## Bydd yn annog disgyblion i wneud y canlynol:

- Ymarfer eu sgiliau mesur drwy ddilyn ryseitiau. Beth am roi cynnig ar ein myffins ffrwythau blasus?

## Myffins Ffrwythau – digon i wneud 12 myffin

Bydd arnoch angen:

- 225g o flawd codi
- 1 llond llwy de o bowdwr codi
- 50g o siwgr brown
- 175ml o lefrith
- 75g o fenyn (wedi'i doddi)
- 1 wy
- 200g o ffrwythau wedi'u torri'n fân

1. Cymysgwch y blawd, y powdwr codi, y siwgr, y llefrith, y menyn a'r wy gyda'i gilydd tan nad oes unrhyw lympiâu ar ôl.
2. Ychwanegwch 200g o ffrwythau wedi'u torri'n fân a'u cymysgu i mewn.
3. Codwch y gymysgedd i mewn i duniau myffin wedi'u hiro.
4. Craswch nhw yn y popty ar wres o 200oC am 15-20 munud neu nes eu bod wedi troi'n lliw brown golau.

